

# Y Cyfarfod Llawn

---

Dyddiad y cyfarfod:  
**Dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2013**

Amser y cyfarfod:  
**13:30**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



## Pleidleisiau a Thrafodion (167)

---

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.16

**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** O ystyried y dirywiad yng nghanlyniadau Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella, ar fyrder, y safonau addysg a chyrhaeddiad yng Nghymru?

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.24

Gofynnwyd cwestiynau 2 i 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 1 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.10

#### 4 Datganiad gan y Gweinidog Tai ac Adfywio: Ymatebion i'r Papur Gwyn "Rhentu Cartrefi"

Dechreuodd yr eitem am 15.22

#### 5 Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.51

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**NDM5376 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru).

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw rhan 3 wedi ei chynnwys mewn Bil anghenion addysgol arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

**NDM5376 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Addysg (Cymru).

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
29	0	28	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio o blaid y cynnig er mwyn caniatáu trafodaeth bellach o'r Bil yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3.

## 6 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â Bil Addysg (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.37

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

### NDM5377 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Addysg (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
29	0	28	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio o blaid y cynnig er mwyn caniatáu trafodaeth bellach o'r Bil yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3

## 7 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.41

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

### 1. Adolygu gweithrediad y Ddeddf

4, 1

### 2. Trefniadau trosiannol

6, 7

### 3. Cynrychiolaeth ar gyrrff llywodraethu

5, 5A, 3

*Gwelliant 5 yw'r prif welliant yn y grŵp*

*Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwaredu yn y drefn: 5A, 5, 3*

### 4. Ymgynghoriad gan y corff

8

### 5. Colli swyddi

2

Cynhaliwyd y bleidlais yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
10	0	44	54

Gwrthodwyd gwelliant 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5A:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	1	28	56

Gwrthodwyd gwelliant 5A.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	15	13	55

Derbyniwyd gwelliant 5.

Gan fod gwelliant 5 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 3.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl.

Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.

**8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 17.28

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

**9 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Cyllid y GIG (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 17.29

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

**1. Trosolwg**

1

**2. Dyletswyddau ariannol Bryddau Iechyd Lleol**

2

**3. Dyletswyddau Cyllunio Byrddau Iechyd Lleol a Gweinidogion Cymru**

3

**4. Cyflwyno Adroddiadau**

4, 4A, 5, 7, 8

*Bydd y gwelliannau hyn cael eu gwaredu yn y drefn - 4A, 4, 5, 7*

**5. Pŵer i fenthyca**

6

Cynhaliwyd y bleidlais yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4A:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
18	0	38	56

Gwrthodwyd gwelliant 4A.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
28	0	29	57

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
18	9	28	55

Gwrthodwyd gwelliant 6.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
27	0	28	55

Gwrthodwyd gwelliant 7.

Gan fod gwelliant 7 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 8.

Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.

**10 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 18.13

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cyllid y GIG (Cymru)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.19

Daeth y cyfarfod i ben am 18:22

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013**